# PWYLLGOR CYSYLLTU CYMUNEDOL

Cofnodion cyfarfod o bell a gynhaliwyd ar 1 Gorffennaf, 2025.

Mae agenda'r Pwyllgor ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma:
RHAN 1
RHAN 2

Yn bresennol: Y Cynghorydd R.M. Birch (Cadeirydd); Y Cynghorwyr A. Asbrey, C. Cave, W. Gilligan, S.J. Haines, S.M. Hanks, N.P. Hodges, H.M. Payne, S.D. Perkes ac R.R. Thomas.

Yn cynrychioli Cynghorau Tref a Chymuned: Y Cynghorwyr B. Brooks (Cyngor Tref y Barri) (Dirprwy), M. Wilson (Cyngor Tref y Bont-faen gyda Llanfleiddan), G. Thomas (Cyngor Tref Llanilltud Fawr), M. Phillips (Cyngor Cymuned Dinas Powys), H. Baker (Cyngor Cymuned Ewenni) (Dirprwy), S. Jefferies (Cyngor Cymuned Llandochau), J. Shaw (Cyngor Cymuned Llandŵ), S. Bonnar (Cyngor Cymuned Llanfair), L. Green (Cyngor Cymuned Llan-faes) (Dirprwy), P. Summers (Cyngor Cymuned Pen-llin), S.M. Toker (Cyngor Cymuned Sain Tathan), I. Perry (Cyngor Cymuned Sain Nicolas a Thresimwn), N. Parry (Cyngor Cymuned Sili a Larnog) a C. Hawkins (Cyngor Cymuned y Wig).

Hefyd yn bresennol: Y Cynghorwyr G. John (Aelod Cabinet dros Hamdden, Chwaraeon a Llesiant), Dr. I J. Johnson ac E. Williams (Aelod Cabinet dros Gofal Cymdeithasol ac Iechyd).

## 131 CYHOEDDIAD –

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd a Chraffu y datganiad a ganlyn: “A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngrwyd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol."

## 132 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd y rhain gan y Cynghorwyr M.R. Wilson (Is-gadeirydd), S. Campbell, S. Hodges (Cyngor Tref y Barri), M. Cuddy (Cyngor Tref Penarth), R. Cox (Cyngor Tref Penarth) (Dirprwy), B. Morris (Cyngor Cymuned Tregolwyn), J. Radcliffe (Cyngor Cymuned Ewenni), M. Narusberg (Cyngor Cymuned Llan-faes), C. Wride (Cyngor Cymuned Pendeulwyn) ac A. Cory (Cyngor Cymuned Sain Siorys a Llansanffraid-ar-Elái).

133 COFNODION –

CYTUNWYD – Y BYDD cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Ebrill, 2025 yn cael eu cymeradwyo fel cofnod cywir.

134 DATGANIADAU O FUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

135 GWASANAETH HEDDLU DE CYMRU – DIWEDDARIAD LLAFAR –

Dywedodd y Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd a Chraffu, er gwaethaf ymdrechion gorau i drefnu cynrychiolydd yn ei le, nad oedd Gwasanaeth Heddlu De Cymru yn gallu mynychu'r cyfarfod y noson honno. Felly, derbyniwyd ymddiheuriadau gan yr Arolygydd Childs a'i gydweithwyr a oedd yn drist yn talu eu parch mewn gwasanaeth angladd. Fodd bynnag, roedd yr Arolygydd Childs wedi cynghori y byddent yn bresennol yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor i roi diweddariad bob chwe mis.

CYTUNWYD – Y BOD yr ymddiheuriadau a dderbyniwyd gan yr Arolygydd Childs yn cael eu nodi.

136 GWASANAETH TÂN AC ACHUB DE CYMRU – DIWEDDARIAD LLAFAR –

Oherwydd anawsterau technegol, nid oedd modd ffrydio’n fyw’r diweddariad llafar gan Reolwr Grŵp O'Keefe, fodd bynnag, mae'r diweddariad a roddwyd gan y Rheolwr Grŵp wedi'i nodi'n fanwl isod.

Rhoddodd Rheolwr Grŵp O'Keefe wybod am y canlynol:

**1. Tueddiadau a Gweithgarwch Digwyddiadau**

Ar ôl dechrau hynod brysur i'r flwyddyn, a welodd gynnydd o 3000% mewn gweithgarwch tanau gwyllt ar draws y gwasanaeth dros yr un cyfnod y llynedd, a gyfrannodd hefyd at y cyfnod prysuraf a gofnodwyd erioed i Wasanaethau Tân ac Achub y DU ers yr Ail Ryfel Byd, mae nifer y digwyddiadau wedi gostwng yn sylweddol trwy gydol chwarter 2.

**Digwyddiadau’n gysylltiedig â thân**

Yn ystod chwarter 2, mynychwyd cyfanswm o 114 o ddigwyddiadau a oedd yn gysylltiedig â thân ym Mro Morgannwg:

- Roedd 15 o ddigwyddiadau’n ymwneud ag anheddau domestig neu eiddo preswyl eraill.
- Roedd 6 digwyddiad yn ymwneud ag adeiladau amhreswyl fel eiddo masnachol neu ddefnydd cyhoeddus.

- 19 o danau awyr agored, gan gynnwys digwyddiadau a oedd yn ymwneud â glaswelltir, coed, neu strwythurau awyr agored.
- 64 o danau sbwriel a bin, gan ddangos crynodiad nodedig o weithgarwch tân mewn mannau cyhoeddus neu agored.
- 10 o danau cerbyd neu beiriant, gan adlewyrchu risgiau ar ffyrdd, ar safleoedd diwydiannol neu mewn meysydd parcio.

**Dadansoddiad o Achosion Tân ym Mro Morgannwg**

- Canfuwyd bod 39 o danau yn ddamweiniol eu natur.
- Roedd 8 tân yn fwriadol, yn ymwneud ag eiddo’r unigolyn ei hun.
- Cafodd 66 o danau eu dechrau’n fwriadol, gan effeithio ar eiddo eraill neu berchnogaeth anhysbys.

Roedd y ffigur hwn yn nodi cynnydd o 53 o ddigwyddiadau o'r math hwn a gofnodwyd yn ystod yr un chwarter yn y flwyddyn flaenorol.

**Ymateb Ataliol a Strategaeth**

Mewn ymateb i'r cynnydd hwn, mae'r Gwasanaeth wedi:

Cynyddu ymgysylltu ag ysgolion a phobl ifanc gan ganolbwyntio ar beryglon tanau gwyllt a thanau agored a chynnal gweithrediadau amlasiantaethol rhagweithiol mewn ardaloedd fel y Barri, gan dargedu lleoliadau a demograffeg mewn perygl trwy addysg, patrolau, ac ymyriadau cynnar

**2. Digwyddiadau Camrybudd**

Mynychwyd cyfanswm o 62 o gamrybuddion awtomatig yn ystod chwarter 2 ym Mro Morgannwg.  Roedd hyn yn ostyngiad sylweddol o'r 100 o gamrybuddion a fynychwyd a gofnodwyd yn ystod yr un cyfnod yn y flwyddyn flaenorol.

Roedd y gostyngiad hwn yn dilyn gweithredu polisi diwygiedig yn llwyddiannus yn chwarter 1, a oedd yn cyfyngu presenoldeb y Gwasanaeth i larymau awtomatig mewn adeiladau amhreswyl ac roedd y newid polisi wedi rhyddhau adnoddau ar gyfer ymatebion brys rheng flaen a gwaith atal gyda'r nod o wella effeithlonrwydd cyffredinol y gwasanaeth.

**3. Digwyddiadau Gwasanaeth Arbennig**

Mynychodd y Gwasanaeth 95 o alwadau gwasanaeth arbennig yn y Fro yn ystod chwarter 2.  Roedd y rhain yn cynnwys ystod eang o swyddogaethau cymorth brys, wedi'u rhannu fel a ganlyn:

- 3 achos o achub anifeiliaid.
- 2 ddigwyddiad llifogydd.
- Roedd 33 o ddigwyddiadau yn cynnwys cefnogi asiantaethau eraill lle cynhaliwyd gweithgareddau i gefnogi ein partneriaid, gan gynnwys: Mynediad gorfodol i eiddo, rhyddhau anafedig bariatrig a chefnogi gyda chymorth meddygol brys.

- Mynychwyd 1 digwyddiad achub o’r dŵr ym Mro Morgannwg, ond gwnaeth criwiau achub o’r dŵr arbenigol o'r Barri a Phenarth gynorthwyo criwiau o bob rhan o'r gwasanaeth ar sawl achlysur gyda'r gwasanaeth ehangach yn mynychu 12 digwyddiad ar draws y gwasanaeth yn ystod y cyfnod.
- Mynychodd y gwasanaeth 23 o Wrthdrawiadau Traffig Ffyrdd (GTFf) ym Mro Morgannwg dros y cyfnod gyda chyfanswm ehangach o 184 o GTFf a fynychwyd ar draws y gwasanaeth cyfan.

**4 Parodrwydd Gweithredol**

Mae criwiau o bob rhan o Fro Morgannwg wedi cwblhau hyfforddiant gweithredol parhaus yn ystod chwarter 2 i gynnal safonau uchel o allu ymateb i argyfwng. Mae’r gweithgareddau nodedig yn cynnwys:

- Ymarferion ar y cyd ym Maes Awyr Caerdydd, gan wella cydlynu amlasiantaethol ar gyfer digwyddiadau sy'n gysylltiedig ag awyrennu risg uchel.
- Ymarferion tân mewn blociau fflatiau uchel a gwaith sicrwydd, gan gynnal parodrwydd ar gyfer senarios achub ac atal tân.
- Ymarferion achub o’r dŵr gan gynnal parodrwydd ar gyfer ymateb gweithredol i achub o’r dŵr neu lifogydd ardal eang.

**5. Diogelwch Cymunedol ac Atal**

Gwiriadau Diogelwch Tân yn y Cartref (GDTCau)
Cynhaliwyd 4,312 o GDTCau ar draws y gwasanaeth y chwarter hwn. Roedd yr ymweliadau hyn yn targedu'r trigolion mwyaf agored i niwed, gyda'r nod o leihau'r risg o dân domestig trwy gyngor wedi'i deilwra a gosod offer diogelwch

**Ymgysylltu â’r Gymuned Leol**

**Diogelwch Tân**

Roedd criwiau o orsafoedd ym mhob rhan o Fro Morgannwg wedi cyflwyno cyngor diogelwch tân yn ystod amrywiol ddigwyddiadau cymunedol ledled yr ardal a thu hwnt yn ystod y cyfnod sydd wedi cynnwys Grŵp Heneiddio'n dda’r Fro, Grŵp Cymunedol Llandŵ, Gŵyl Achub Porthcawl ym Mhorthcawl, Digwyddiad Rhuban Gwyn Ynys y Barri, Grŵp Diogelwch Age Connects, Bore Coffi Grŵp Cyn-filwyr y Barri yn ogystal â chynnal ymgyrchoedd diogelwch penodol ym Mharc Carafanau'r Fro, gan dargedu risgiau llety gwyliau a digwyddiadau diogelwch mewn blociau fflatiau uchel a gynhaliwyd gan griwiau Penarth yn ardal Anchorage Bae Caerdydd.

Yn ogystal, roedd y gwasanaeth wedi lansio ymgyrch ar y cyfryngau cymdeithasol yn tynnu sylw at beryglon barbeciws tafladwy ac wedi codi risgiau sy'n gysylltiedig â barbeciws gydag asiantaethau partner i gael cymorth i fynd i'r afael â'r mater o ddefnydd a gwaredu amhriodol yng nghyfarfodydd amlasiantaethol Ymgyrch Elstree.

**Diogelwch Dŵr**

Mewn partneriaeth â Theatr na nÓg, cyflwynodd criwiau Penarth ymgyrch diogelwch dŵr sylweddol dros gyfnod o bythefnos gan gyflwyno negeseuon ac arddangosiadau diogelwch wedi'u targedu i dros 1,500 o blant ym Mae Caerdydd.

**Diogelwch ar y Ffyrdd**

Mae'r Tîm Diogelwch ar y Ffyrdd wedi arwain 27 o ymgysylltiadau cyhoeddus ar draws y gwasanaeth mewn perthynas â diogelwch ar y ffyrdd a oedd yn cynnwys:

- 23 o gyflwyniadau Domino.
- 22 o ddigwyddiadau ymyrraeth gwregysau diogelwch gan weithio gyda'r Heddlu i roi cyngor wedi'i dargedu i'r rhai sy'n cael eu dal heb wisgo gwregysau diogelwch.
- 49 o ddigwyddiadau Ymgyrch Atal, a gyflwynwyd gyda phartneriaid yr heddlu, gan dargedu troseddau goryrru, diffyg cydymffurfio â pharthau 20mya a methiant i wisgo gwregysau diogelwch.

Cefnogodd criwiau o Lanilltud Fawr hefyd addysg diogelwch beiciau modur yn Nhrac Llandŵ, ochr yn ochr â Heddlu De Cymru, gan roi cyngor risg ffyrdd wedi'i deilwra i feicwyr yn y Fro.

**Rhaglenni Addysg Ieuenctid**

Yn ystod chwarter 2 y flwyddyn galendr cyflwynodd y gwasanaeth sesiynau diogelwch tân yn yr ysgol i 2,239 o ddisgyblion Cyfnod Allweddol 1 a 2,593 o ddisgyblion Cyfnod Allweddol 2 ar draws y gwasanaeth.

Yn ogystal, derbyniodd 282 o bobl ifanc addysg wedi'i thargedu ar ddiogelwch tanau gwyllt a glaswellt a gwnaeth 319 o bobl ifanc gymryd rhan yn rhaglenni allgymorth Ffenics a Myfyrio’r Gwasanaeth, a ddyluniwyd i:

- Adeiladu dinasyddiaeth.
- Lleihau ymddygiadau cymryd risg.
- Meithrin cyfrifoldeb cymunedol.
- Hyrwyddo diogelwch, gwaith tîm a hunanhyder.

**6. Gwaith Ôl-Ddigwyddiad ac Ymddygiad** Gwrthgymdeithasol

Yn dilyn tân trasig ym Mro Morgannwg, cynhaliodd criwiau’r ymgyrch Hot Strike, gan ymweld ag eiddo cyfagos i roi cyngor a sicrwydd diogelwch tân i drigolion.

Roedd gwaith partneriaeth amlasiantaethol parhaus yn Heol Holltwn, Y Barri, yn cynnwys patrolau ar y cyd i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol, ac ymyriadau ieuenctid wedi'u targedu i leihau galwadau tân a niwsans.

Mae gweithgarwch atal ychwanegol wedi'i gynnal yn Ysgol Pencoedtre i helpu i leihau camactifadu (CA).

Parhaodd y Gwasanaeth yn ymrwymedig i wella diogelwch a gwydnwch ledled y Fro trwy ddull cydgysylltiedig wedi’i arwain gan atal, tra'n cynnal y safonau uchaf o ymateb brys.

Yn dilyn diweddariad y Rheolwr Grŵp, diolchodd y Cadeirydd i'r Swyddog am ei amser a nododd ddefnyddioldeb derbyn diweddariadau a chyngor mewn perthynas â materion a oedd yn fwy cyffredin mewn tywydd cynhesach ac felly’r misoedd i ddod. Yng ngoleuni hyn, argymhellodd y Cadeirydd y dylid anfon cyngor diogelwch tân mewn perthynas â materion tywydd cynhesach, fel barbeciws tafladwy a thanau glaswellt gwyllt, at holl Aelodau'r Pwyllgor yn dilyn y cyfarfod i'w rannu gyda'u priod Gynghorau.

CYTUNWYD –

(1) Y bod y diweddariad llafar a ddarparwyd gan y Rheolwr Grŵp O’Keefe yn cael ei nodi.

(2) Y bod diweddariad ysgrifenedig gan y Rheolwr Grŵp O’Keefe yn cael ei ddarparu i holl aelodau’r Pwyllgor, trwy’r Swyddog Gwasanaethau Democrataidd a Chraffu yn dilyn y cyfarfod, gan gynnwys cyngor penodol ar gyfer tywydd cynhesach.

<u>Rhesymau dros benderfyniadau</u>

(1) Gan ystyried gwybodaeth ddiweddaraf ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor (Ebrill 2025).

(2) Fel y gall Aelodau’r Pwyllgor rannu’r diweddariad gan y Gwasanaeth Tân a chyngor diogelwch tywydd cynnes gyda’u Cynghorau Tref a Chymuned priodol.

137 ENWEBU CYNRYCHIOLYDD O GYNGHORAU CYMUNED AR GYFER Y BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS –

Cyflwynwyd yr adroddiad i wahodd cynrychiolydd o Gynghorau Tref a Chymuned (CTCh) i ymuno â'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) yn unol â'r canllawiau statudol ar gyfer Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac i barhau i gynnwys CTCh yng ngwaith y BGC a'r ddeialog effeithiol a sefydlwyd rhwng CTCh.

Rhoddodd y Cadeirydd wybod i’r Pwyllgor ar 30 Ionawr 2025 gytuno ar Gynnig y byddai'r cynrychiolydd CTCh a benodwyd i'r BGC yn cael ei gylchdroi rhwng Cynghorau maint Tref a Chymuned bob dwy flynedd. Cafodd y Cynghorydd C. Hadley o Gyngor Cymuned Tregolwyn ei benodi fel y cynrychiolydd ar y BGC am gyfnod o ddwy flynedd hyd at fis Ionawr 2027.

Yn dilyn ymddiswyddiad diweddar y Cynghorydd C. Hadley o Gyngor Cymuned Tregolwyn, o’r Pwyllgor Cyswllt Cymunedol, ac fel ei gynrychiolydd ar y BGC, gofynnwyd i'r Pwyllgor benodi cynrychiolydd newydd i eistedd ar y BGC tan Etholiadau Llywodraeth Leol 2027.

Yn dilyn rhywfaint o drafodaeth ynglŷn ag amseriad derbyn enwebiadau, awgrymodd y Prif Swyddog Craffu a Gwasanaethau Democrataidd y dylid gohirio'r adroddiad i gyfarfod nesaf y Pwyllgor. Cytunwyd ar yr awgrym hwn wedyn gan y Pwyllgor i roi mwy o amser i aelodau'r Pwyllgor ystyried enwebiadau perthnasol ac i fynd â'r mater i bleidlais gyda nifer uwch o Gynrychiolwyr Cyngor Tref a Chymuned yn bresennol.

CYTUNWYD – Y dylid gohirio’r adroddiad tan gyfarfod nesaf y Pwyllgor.

Rheswm dros y penderfyniad

Er mwyn caniatáu mwy o amser i’r Pwyllgor ystyried enwebiadau perthnasol a chymryd y mater i bleidlais gyda nifer uwch o Gynrychiolwyr Cynghorau Tref a Chymuned yn bresennol.

138 COMISIWN DEMOCRATIAETH A FFINIAU CYMRU: ADOLYGIAD O DREFNIADAU ETHOLIADOL BRO MORGANNWG –

Dechreuodd Prif Weithredwr Cyngor Bro Morgannwg a Swyddog Cofrestru Etholiadol y Cyngor gyflwyno'r adroddiad drwy dynnu sylw at y ffaith y byddai Aelodau'r Pwyllgor eisoes yn ymwybodol o'r Adolygiad Cymunedol diweddar a gynhaliwyd ym Mro Morgannwg a bod Gweinidogion Llywodraeth Cymru wedi derbyn argymhellion yr adolygiad hwnnw yn ddiweddar. Felly, byddai gwaith nawr yn digwydd cyn yr Etholiad Llywodraeth Leol nesaf ym mis Mai 2027 i roi argymhellion yr adolygiad blaenorol ar waith.

Felly, yn dilyn yr Adolygiad Cymunedol, roedd yn bwysig bod Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru ("y Comisiwn") yn dilyn i fyny gydag Adolygiad Etholiadol ehangach. Roedd Deddf Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru ac ati. 2013 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn adolygu'r trefniadau etholiadol ar gyfer pob prif ardal yng Nghymru o leiaf unwaith bob 12 mlynedd.

Diffiniwyd y trefniadau etholiadol fel:

- Nifer Aelodau'r Cyngor ar gyfer y brif ardal.
- Nifer, math a ffiniau'r wardiau etholiadol y mae'r brif ardal wedi'i rhannu ynddynt am y tro at y diben o ethol Aelodau.
- Nifer yr Aelodau i'w hethol ar gyfer unrhyw ward etholiadol yn y brif ardal; ac
- Enw unrhyw ward etholiadol.

Rhoddodd yr adroddiad wybod bod y Comisiwn wedi dechrau'r Adolygiad Etholiadol ar gyfer Bro Morgannwg ar 5 Mehefin 2025 a gwnaeth annog Cyngor Bro Morgannwg i ddarparu cynllun o sylwadau effeithiol fel rhan o'r ymgynghoriad erbyn 16 Gorffennaf 2025. I'r perwyl hwn, roedd yr adroddiad yn cynnwys set o arsylwadau cychwynnol i'w hystyried gan y Comisiwn Ffiniau, fel y manylir yn Adran 2 yr adroddiad, a byddai'r Cyngor yn cael cyfle i sylwi ymhellach yn y camau dilynol.

I gloi, dywedodd y Prif Weithredwr a Swyddog Cofrestru Etholiadol y Cyngor y gallai Cyngor Tref a Chymuned unigol ac yn wir unrhyw aelod unigol o unrhyw Gyngor Tref

a Chymuned wneud sylwadau'n uniongyrchol i'r Comisiwn Ffiniau yn yr un modd ag unrhyw Grŵp Gwleidyddol neu Aelod Etholedig Bro Morgannwg.

Ar ôl i'r swyddogion gyflwyno'r adroddiad, nododd Cynrychiolydd Cyngor Cymuned Pen-llin bwysigrwydd bod Cynghorau Tref a Chymuned yn codi unrhyw faterion a allai wella sylwadau effeithiol ac atebol ar draws yr holl etholwyr gyda'r Comisiwn a Chyngor Bro Morgannwg, i dynnu sylw at unrhyw faterion a mesurau penodol/ unigryw nad oeddent yn amlwg ar unwaith o edrych ar niferoedd a chymarebau cynghorwyr. Felly, anogodd y Cynrychiolydd Aelodau Etholedig Bro Morgannwg, wrth ystyried yr ymateb i'w gyflwyno i'r Comisiwn, i beidio â'i ystyried yn unig yn ymarfer cydbwyso niferoedd a chymarebau, ond hefyd i gyflawni amcanion craidd yr adolygiad i sicrhau sylwadau effeithiol ac atebol ar gyfer pob ardal ar draws Bro Morgannwg.

Mewn ymateb, cadarnhaodd y Prif Weithredwr a Swyddog Cofrestru Etholiadol y Cyngor y byddai angen i Gyngor Bro Morgannwg edrych ar bob ardal ym Mro Morgannwg ac nid yn unig y rhai a ddaeth i sylw'r Cyngor gan y Comisiwn drwy gynnwys yn y map thematig (Atodiad 2). Cynghorau Tref a Chymuned oedd yr arbenigwyr yn eu hardaloedd penodol ac felly, nawr fyddai'r amser delfrydol i gyflwyno sylwadau i'r comisiwn.

Byddai cam nesaf yr adolygiad yn golygu bod y Comisiwn yn cyhoeddi argymhellion y byddai pob parti yn cael cyfle pellach i wneud sylwadau arnynt, a disgwyliwyd y byddai'r Pwyllgor yn derbyn adroddiad pellach yn y dyfodol wrth i'r adolygiad fynd rhagddo.

Heb unrhyw sylwadau na chwestiynau pellach, y Pwyllgor wedi hynny

CYTUNWYD –

(1) Y dylid nodi sylwadau Cyngor Bro Morganwg ar ymgynghoriad cychwynnol y Comisiwn ar gam cyntaf yr adolygiad a'r sylwadau arno, fel y'u nodir yn yr adroddiad.

(2) BOD yr adroddiad a sylwadau'r Pwyllgor yn cael eu cyfeirio at y Cyngor ar 14 Gorffennaf, 2025.

<u>Rhesymau dros y penderfyniadau</u>

(1) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad, hysbysu'r Pwyllgor Cyswllt Cymunedol o sylwadau'r Cyngor i ymgynghoriad cychwynnol y Comisiwn ar gam cyntaf yr adolygiad.

(2) Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cyngor a chymeradwyo'r ymateb i gam ymgynghori cychwynnol yr adolygiad.